

# MAE MS YN BWYSIG

Senedd Cymru 2021



Cyflwr niwrolegol yw Sglerosis Ymledol (MS) sydd yn effeithio ar fwy na 5,600 o bobl yng Nghymru.

Ers 2016, mae rhywfaint o gynnydd wedi bod. Yn bennaf, mae Cronfa Triniaethau Newydd Llywodraeth Cymru wedi golygu mynediad cyflymach i rai triniaethau newydd ar gyfer MS – fodd bynnag, mae angen ymdrech adnewyddadwy i bawb sydd yn byw gydag MS yng Nghymru er mwyn iddynt gael y safon o wasanaethau sydd angen arnynt.

Rydym wedi gweithio yn agos â'n cymuned MS i ddeall y bylchau presennol mewn triniaeth, gofal a chymorth, a'r materion sydd angen gweithredu i'w datrys. Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru;

## Sicrhewch nad yw Cymru ar ei hôl hi o ran triniaethau a chymorth MS!

Rydym wedi gweld datblygiadau anferth o ran yr opsiynau triniaeth i bobl sydd yn byw gydag MS atglafychol ysbeidiol (RRMS) dros yr 20 mlynedd diwethaf. Yn hanfodol, maent wedi helpu i bobl reoli eu cyflwr, adnabod yr arwyddion cynnar o gymhlethdodau a rhoi strategaethau atal a thriniaeth yn eu lle er mwyn osgoi mynediadau ysbyty nad ydynt wedi eu trefnu.

Erbyn hyn, mae 13 o Therapiau Addasu Cefydau (DMTs) ar gael i RRMS – ond mae pob DMT newydd yn arwain at asesiadau ac anghenion monitro ychwanegol sydd yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaethau sydd yn barod yn gweithio i'w capasiti llawn.

Yn 2019 gwelwyd y driniaeth gyntaf yn cael ei thrwyddedu i rai pobl sydd yn byw gydag MS sy'n gwaethygu'n raddol o'r dechrau'n deg heb unrhyw gyfnodau o wella o gwbl (PPMS) – a

gyda rhai eraill yn cael eu datblygu, mae clinigwyr yng Nghymru wedi lleisio pryderon am y diffyg seilwaith i'w gweinyddu a'u monitro.

Mae gormod o lawer o bobl sydd yn byw gydag MS yng Nghymru yn dal i wynebu rhwystrau i gael mynediad i driniaethau a chymorth hanfodol – ac maent yn llai tebygol o gael mynediad i gymorth arbenigol pan fod ei angen arnynt;

Ers 2013, mae'r nifer o bobl a fydd o bosib yn gallu manteisio o gymryd DMT yng Nghymru wedi cynyddu – ond o gymharu â gweddill y DU, dyma'r lefel isaf o fyndiad.

Roedd 36% o bobl sydd yn byw gydag MS sy'n gwaethygu'n raddol o'r dechrau'n deg heb unrhyw gyfnodau o wella o gwbl yn 2019 a oedd angen gweld niwrolegydd yn methu â gwneud hyn, o gymharu â 21% yn y DU ar y cyfan ii

\* Cyfrifir pob ffigur sy'n perthyn i DMTs ymysg y bobl a fydd yn gallu manteisio o'r triniaethau hyn (h.y. pobl ag MS atglafychol ysbeidiol neu MS eilaidd sy'n gwaethygu gydag atglafychiadau.

## Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru –

- Sicrhau bod yr opsiynau presgripsiynu yn eu lle fel y gall pobl sydd yn byw gydag MS yng Nghymru gael y mynediad gorau i bob DMT ac SMT sydd ar gael
- Wella seilwaith y GIG i ymdopi â thriniaethau sydd yn bodoli eisoes a thriniaethau newydd
- Archwilio i weithrediad Safon Ansawdd a chanllawiau NICE ar MS yn gyson ar hyd a lled Cymru
- Fuddsoddi mewn gweithlu sydd yn gallu ateb anghenion pawb sydd yn byw gydag MS
- Adolygu a diweddarau modelau gwasanaeth a chyflenwi mewn partneriaethau gyda Byrddau Iechyd Lleol, RPBs, gweithwyr proffesiynol MS a phawb sydd yn byw gydag MS er mwyn sicrhau eu bod yn ateb canllawiau NICE

## Gwella Gwasanaethau Gofal a Chymorth!

Mae 1 o bob 3 o bobl sydd yn byw gydag MS yn wynebu anawsterau heb y cymorth sydd angen arnynt i wneud pethau sylfaenol fel ymolchi, gwisgo a bwyta.<sup>iii</sup>

Nid yn unig yw hyn yn annheg, mae'n anghynaliadwy ac yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd a llesiant pobl sydd yn byw gydag MS.

Yn ôl astudiaeth gan Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe mae pobl sydd yn byw gydag MS a'u teuluoedd yn cyllido hyd at 75% o gostau nad ydynt yn feddygol o'u pocedi eu hunain. Nid yn unig yw hyn yn annheg, mae'n anghynaliadwy ac yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd a llesiant pobl sydd yn byw gydag MS.<sup>iv</sup>

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) wedi golygu ychydig iawn i bobl

sydd yn byw gydag MS a'u teuluoedd neu ffrindiau sydd yn gofalu yn ddi-dâl amdanynt. Nid yw trafodaethau am 'Beth Sy'n Bwysig' yn digwydd – maent yn colli allan ar wybodaeth, cymorth a gwasanaethau hanfodol fel canlyniad i hyn.

“Mae MS sy'n gwaethygu'n raddol o'r dechrau'n deg heb unrhyw gyfnodau o wella o gwbl gen i. Nid yw'r profiad wedi bod yn dda o gwbl, dechreuwyd Gofal Iechyd Parhaus (CHC) ar ôl blwyddyn o ymgyrchu gan fu nheulu. Ers bod ar CHC nid ydym wedi cael unrhyw gyswllt o gwbl am newid anghenion ac nid ydym yn gwybod pwy i siarad â nhw.”

## Rhaid i Lywodraeth Cymru -

- Ddarparu'r cyllid ac adnoddau i Awdurdodau Lleol gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl sydd yn byw gydag MS
- Gyfarwyddo Awdurdodau Lleol i wneud asesiad grymus o anghenion y boblogaeth ymysg pobl sydd yn byw gydag MS a'u gofalwyr er mwyn deall pobl sydd mewn angen yn well
- Fynd i'r afael ag adolygiad o'r gweithlu er mwyn darganfod bylchau mewn darpariaeth
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol i bobl sydd yn byw gydag MS i gyfranogi mewn cynllunio gwasanaethau

### Taclo tlodi i bobl sydd yn byw gydag MS!

Wrth i MS ddatblygu o ddiagnosis, mae llawer o bobl yn lleihau neu yn newid eu patrwm gweithio cyn tynnu yn ôl o gyflogaeth yn gyfan gwbl. Gall lefelau incwm amrywio gydag amser wedi diagnosis – yn uwch ymysg pobl sydd wedi cael diagnosis diweddar ac yn is ymysg pobl sydd ag MS mwy datblygedig.<sup>v</sup>

Yn 2019, dim ond 49% o bobl ymddeoledig sydd yn byw gydag MS yng Nghymru a oedd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth gan eu cyflogwr.<sup>vi</sup> Mae rheolaeth effeithiol o'r cyflwr a chyflogwyr cefnogol yn allweddol i ganlyniadau cyflogaeth, ac i atal ymadawiadau cynnar o'r gweithlu.

Mae MS yn effeithio ar 3 gwaith yn fwy o fenywod na dynion, ac yn dueddol o ddechrau effeithio ar bobl ar adegau arwyddocaol yn eu bywydau proffesiynol a phersonol.

Gall MS gynyddu costau byw o ryw £200 yr wythnos. Mae budd-daliadau anabledd fel Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) fod i helpu i reoli'r costau ychwanegol hyn, ond mae gormod o bobl sydd yn byw gydag MS yn cael eu budd-dal wedi ei leihau neu ei dorri yn gyfan gwbl.<sup>vii</sup>

“Pan `dwi'n meddwl am y gostyngiad yn fy PIP dwi'n teimlo straen ac iselder. Nid oeddent yn ystyried beth ddywedais (am fy nghyflwr), ac roeddent hyd yn oed yn nodi'r gwrthwyneb. Yr unig dystiolaeth sydd ganddynt yw beth oeddent yn ysgrifennu, doedd dim syniad ganddynt beth oedd e. Dwi'n ceisio aros yn gadarnhaol, ond `dwi'n casau'r ffaith fy mod i'n colli fy meddwl a'm corff. Dwi'n byw yn y tywyllwch oherwydd `dwi ddim hyd yn oed yn gallu mynd y tu allan.”

Mae diwygiadau lles yn cyfrannu at iechyd yn gwaethgu yn ogystal â dwysáu tlodi ac unigedd i'r gymuned MS yng Nghymru. Mae cael MS yn ddigon anodd – ond mae'n cael ei wneud yn fwy anodd byth gan system budd-daliadau nad yw'n gwneud synnwyr.

Mae budd-daliadau i bobl anabl a weinyddir yng Nghymru fel Cynlluniau Trafnidiaeth Rhatach; Budd-dal Tai; Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a Grantiau Cyfleusterau Pobl Anabl yn hanfodol; ond nid ydynt yn lleihau'r costau ariannol pob-dydd o fyw gydag MS neu'r effaith o ddiwygiadau lles.

Gall pobl sydd yn byw gydag MS yng Nghymru wynebu anghydraddoldeb o ran mynediad i gymorth emosiynol, cymdeithasol ac adsefydlu; ffisiotherapyddion a chynghorwyr ymataliaeth sydd yn cyfateb yn uniongyrchol i statws incwm, addysg a chyflogaeth.<sup>viii</sup>

Mae methiannau yn y broses PIP yn golygu fod pobl sydd yn byw gydag MS yn gorfod dioddef apeliadau blinedig, torcalonnus a diangen – mae 83% o bobl sydd yn symud o DLA i PIP ac yn herio eu penderfyniad yn ennill yr apêl.<sup>ix</sup>

## Rhaid i Lywodraeth Cymru -

- Fabwysiadu gwaith fel canlyniad clinigol priodol o fewn y gwasanaeth iechyd
- Greu strategaeth o welliannau wedi eu targedu i'r budd-daliadau datganoledig i bobl anabl
- Ddod â'r anghydraddoldeb o ran mynediad i wasanaethau cymorth hanfodol i ben
- Ymrwymo i fynd i'r afael â'r tlodi a chaledi y mae pobl ag MS yn wynebu wrth i ragor o bŵerau gael eu datganoli i Gymru
- Addo i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn atebol am y system bychanol a diraddiol o les sydd yn methu pobl anabl

i MS Society UK. Ionawr 2020. MS Prevalence Report.

ii MS Society UK. Mawrth 2019. Canlyniadau arolwg My MS My Needs.

iii Ibid.

iv Nicholas R.S. et al. Personal and societal costs of multiple sclerosis in the UK: A population-based MS Registry study. Multiple Sclerosis Journal— Experimental, Translational and Clinical. January–March 2020, 1–11

v Ibid

vi Fel ii

vii MS Society UK. November 2019. PIP fails: how the PIP process betrays people with MS.

viii Fel iv

ix Ibid.